P-06-1295 Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn cyn iddo ddod i rym

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Hydref 2022
Petitions Committee | 10 October 2022

Cyfeirnod: SR22/3596-10

Rhif y ddeiseb: P-06-1295

Teitl y ddeiseb: Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn CYN iddo ddod i rym

Geiriad y ddeiseb:

Credaf fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal arolwg cyhoeddus ar y newid hwn gan y bydd yn effeithio ar bawb! Nid oes unrhyw dystiolaeth brofedig y bydd yn achub bywydau neu'n lleihau llygredd. Mae tystiolaeth i gefnogi y bydd yn cynyddu'r allyriadau sy'n cael eu rhoi i'r aer gan nad yw ceir wedi'u cynllunio i gael eu gyrru ar y cyflymder hwn! Mae modurwyr bob amser yn cael eu targedu ac mae'n hen bryd i gerddwyr fod yn atebol i ryw raddau! Mae pobl Cymru yn byw mewn democratiaeth, dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar y cynnig hwn.

Maent eisoes wedi cynnal arolwg o grŵp mawr ar hyn a phleidleisiodd y mwyafrif yn ei erbyn!

Eu hunig dystiolaeth yw damcaniaeth ac achlust. Nid oes ganddynt ddim prawf o gwbl i gefnogi eu honiadau y bydd 20mya yn achub bywydau. Yr hyn

y bydd yn ei wneud yw gorfodi ceir i stopio a chychwyn yn fwy aml ac yn y pen draw byddant yn cronni allyriadau mewn un ardal. Ni allaf ond dychmygu eu bod wedi seilio'r dystiolaeth ffug hon ar eu hadroddiad traffordd ar leihau i 50mya - NID YW'N GWEITHIO!!!!!

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy i addysgu cerddwyr i groesi ar groesfannau dynodedig yn unig a gosod rhwystrau ar hyd ymyl y palmentydd i'w hatal rhag cerdded allan i'r ffordd unrhyw le y dymunant!

Rydym ni fel modurwyr yn mynd yn fwyfwy rhwystredig am fod yn ysglyfaeth hawdd. O ran beicwyr, gyda'r rheol hon ar waith byddant yn reidio'n gyflymach na cheir. Rwyf wedi gweld hyn eisoes yn yr ardaloedd prawf.

Rhowch lais inni ar hyn ar unwaith!

1. Cefndir

Yn 2019 sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylai 20mya ddod yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y grŵp, gan gynnwys yr argymhelliad y dylid lleihau'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig (y rhai mewn ardaloedd preswyl sydd â system o oleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd) o 30mya i 20mya.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chynllun peilot ar draws 8 cymuned, gosododd Llywodraeth Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 ym mis Mehefin. Cafodd y Gorchymyn drafft ei basio gan y Senedd ym mis Gorffennaf a disgwylir iddo ddod i rym ym mis Medi 2023.

Er bydd y terfyn rhagosodedig ar ffyrdd cyfyngedig yn dod yn 20mya, gall awdurdodau priffyrdd (awdurdodau lleol ar gyfer ffyrdd lleol a Gweinidogion Cymru ar gyfer cefnffyrdd/traffyrdd) ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TROs) i newid y terfyn lle bo'n briodol.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi erthygl sy'n edrych yn fanylach ar gyflwyno terfynau 20mya yng Nghymru.

Effaith terfynau 20mya

Mae'r dystiolaeth ynghylch effaith terfynau a pharthau 20mya ar faterion fel cyfraddau anafiadau, ansawdd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi cael ei disgrifio'n aml fel tystiolaeth gymysg.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ar sefyllfa'r dystiolaeth ar derfynau cyflymder 20mya mewn perthynas â'r effeithiau ar ddiogelwch ar y ffyrdd, teithio llesol a llygredd aer. Hefyd yn 2018, cyhoeddodd Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU waith ymchwil ar effeithiolrwydd y terfynau hyn. Canfu ymchwil Llywodraeth y DU:

> ...there is insufficient evidence to conclude that there has been a significant change in collisions and casualties following the introduction of 20mph limits in residential areas...

Yn ôl ymchwil diweddar gan IAM RoadSmart, elusen sy'n hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd, mae cefnogaeth yn y DU ar gyfer gostwng y terfyn cyflymder ar bob ffordd drefol o 30mya i 20mya wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn ôl Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil y sefydliad, nid yw cyflwyno terfyn 20mya cyffredinol, o reidrwydd, yn llwybr delfrydol i'w droedio. Dywedodd:

> Each situation needs to be decided on a case-by-case basis, with local considerations and consultation playing an important role.

Mae'r gwahaniaeth rhwng terfyn 20mya a pharth 20mya hefyd yn bwysig wrth ystyried y dystiolaeth sydd ar gael. Yn ôl ymchwil gan Brifysgol Queen's, er bod tystiolaeth glir bod cyflwyno parthau 20mya, gan gynnwys mesurau gostegu traffig, yn lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ac anafiadau, mae diffyg tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd cyflwyno terfynau 20mya sy'n cael eu gorfodi drwy arwyddion yn unig.

Canfu grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru 'dystiolaeth lethol' dros fwy na dau ddegawd bod cyflymderau is yn arwain at lai o wrthdrawiadau ac anafiadau llai difrifol. Mae'n nodi bod y risg o rywun yn cael ei ladd bron bum gwaith yn uwch mewn gwrthdrawiad rhwng car a cherddwr ar 31mya (50 cilomedr yr awr) o'i gymharu â'r un math o wrthdrawiad ar 18.6mya (30 cilomedr yr awr).

Roedd ei adroddiad yn crynhoi:

> Disgwylir y daw manteision sylweddol o ran diogelwch ar y ffyrdd yn sgil galluogi mwy o lawer o'r terfynau 20mya, yn enwedig mewn

> cymdogaethau difreintiedig. Yn y tymor hwy, disgwylir i ostyngiadau yn y canfyddiad o berygl ffyrdd arwain at fwy o gerdded a beicio a fydd yn gwella iechyd y cyhoedd ac yn disodli rhai teithiau byr mewn car… Mae mwy o gerdded a beicio hefyd yn debygol o arwain at fwy o gydlyniant cymdeithasol sy'n dod â buddiannau cymdeithasol ac iechyd pellach. Bydd cyflymderau is yn arwain at leihad mewn sŵn traffig, tra bydd effeithiau ar ansawdd aer yn niwtral ar y gwaethaf a bydd cynnydd mewn amserau teithio yn fach…

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o Gwestiynau Cyffredin yn ymwneud â chyflwyno terfynau 20mya sy'n cynnwys gwybodaeth am lygredd a diogelwch ffyrdd. Mae hefyd wedi datblygu fframwaith i fesur effeithiau'r terfyn is yn ardaloedd y cynllun peilot.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r deisebydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg cyhoeddus cyn i'r terfyn rhagosodedig o 20mya ddod i rym. Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg cenedlaethol a chanfod bod cefnogaeth gref i'r cynlluniau (81 y cant), yn enwedig ymhlith rhieni.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol hefyd yn 2021. Cafwyd ychydig dros 6,000 o ymatebion, er ar yr achlysur hwn dim ond 47% o ymatebwyr oedd o blaid gostwng y terfyn cyflymder tra bod 53% yn erbyn.

Yn ei lythyr at y Cadeirydd dyddiedig 6 Medi, mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn nodi manylion yr arolwg a'r ymgynghoriad a amlinellir uchod. Mae hefyd yn cyfeirio at dystiolaeth a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag anafusion ffyrdd a llygredd.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, trafododd y Senedd gyflwyno terfynau cyflymder rhagosodedig 20mya gyda 45 o 53 Aelod yn pleidleisio o blaid y cynnig.

Fel yr amlinellwyd, gosododd Llywodraeth Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 ym mis Mehefin 2022. Cafodd y Gorchymyn drafft ei basio gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022 a disgwylir iddo ddod i rym ym mis Medi 2023.

P-06-1295 Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn cyn iddo ddod i rym

Ym mis Ebrill, gwnaethoch ystyried deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i gyflwyno'r terfyn 20mya. Bryd hynny gwnaethoch gytuno i gau'r ddeiseb oherwydd gallu awdurdodau lleol i newid y terfyn ar ffyrdd lle na fyddai 20mya yn briodol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.